






Tecstilau



CAMAU DATBLYGU—GWNÏO (1)

DISGRIFIAD O'R CAMAU

GORUCHWYLIAETH A CHYMORTH GAN OEDOLYN

Yn rhoi mwclis/riliau cotwm/
botymau ar garrai.

Oedolyn - Gafael yn y glain/rîm
gotwm/botwn i ddechrau gan annog
y plentyn i roi'r carrai drwy'r twll. Y
plentyn i geisio gwneud hyn yn
annibynnol yn y pen draw.


Adnoddau - Gleiniau mawr/riliau
cotwm/botymau, careiau â phennau
caled.



Yn gwau carrai ar hap drwy dyllau
mewn cerdyn.

Oedolyn - Gafael yn y cerdyn ac yn
dangos y twll nesaf i'r plentyn. Y
plentyn i geisio gwneud hyn yn
annibynnol yn y pen draw.

Adnoddau - cerdyn caled gyda
thyllau mawr, careiau â phennau
caled.



Yn dangos mwy o reolaeth gan
ddefnyddio pwyth redeg ar gerdyn
â charrai.

Oedolyn - annog y plentyn i wthio'r
garrai mor bell â phosibl er mwyn
medru'i thynnu'n hawdd o'r ochr
arall.


Adnoddau - cerdyn caled â thyllau
mawr, careiau â phennau caled.



Yn defnyddio nodwydd fawr heb fîn
(botgyn) i wau edafedd ar hap drwy
gerdyn.

Oedolyn - dangos sut i ddal yr
edafedd yn dynn i'w wthio drwy'r
grau'r nodwydd.


Adnoddau - nodwydd blastig fawr,
cerdyn caled â thyllau mawr,
edafedd.



Yn defnyddio pwyth redeg syml ar
gerdyn â nodwydd fawr heb fîn
(botgyn).

Oedolyn - dangos y tyllau i'r
plentyn a'i annog i weithio'n
annibynnol

Adnoddau - nodwydd blastig fawr,
cerdyn caled â thyllau mawr,
edafedd.



CAMAU DATBLYGU—GWNÏO (2)

DISGRIFAD O'R CAMAU

GORUCHWYLIAETH A CHYMORTH GAN OEDOLYN

Yn gwnïo â nodwydd fetel ac amrywiaeth o ffabrigau.

Oedolyn - gofalu bod y plentyn yn defnyddio sisyrnau a nodwyddau metel yn ddiogel. Yr oedolyn i roi'r edau drwy'r nodwydd.

Adnoddau - nodwydd fetel fawr heb fin, edau brodwaith, ffabrig.



Yn gwnïo drwy symud y nodwydd i mewn ac allan yn ddi-dor.

Oedolyn - annog y plentyn i symud y nodwydd i mewn ac allan yn ddi-dor.

Adnoddau - nodwydd fetel fawr heb fin, edau brodwaith, siswrn ffabrig, ffabrig e.e. binca, hesian, felt.



Yn rhoi'r edau yn y nodwydd yn annibynnol.

Oedolyn - dangos sut i roi'r edau yn y nodwydd, atgyfnerthu'r dechneg o afael yn y nodwydd.

Adnoddau - nodwydd fetel fawr heb fin, edau brodwaith.



Yn defnyddio pwythau mwy cymhleth e.e. pwyth croes, pwyth dolen.

Oedolyn - dangos y pwythau.

Adnoddau - ffabrig, nodwyddau, edau.



Yn dewis adnoddau i greu darnau o waith gwreiddiol.

Oedolyn - annog y plentyn i fod yn greadigol.

Adnoddau - plentyn yn cael rhyddid i ddewis o amrywiaeth o adnoddau.



CAMAU DATBLYGU—GWEHYDDU

DISGRIFAD O'R CAMAU

GORUCHWYLIAETH A CHYMORTH GAN OEDOLYN

Yn defnyddio'i gorff i wau drwy'r plant eraill e.e. chwarae gemau.

Oedolion - yn dangos sut i chwarae'r gêm.
Adnoddau - lle i grŵp o blant.




Yn gwehyddu ar hap â deunyddiau.

Oedolyn - yn dangos symudiadau 'i mewn ac allan'.
Adnoddau - rhuban gosod blodau, stribedi o ffabrig, deunyddiau mawr i wau drwyddynt e.e. trellis, ffens, rheiliau.



Yn gwehyddu 'i mewn ac allan' i fyny ac i lawr â deunyddiau.

Oedolyn - yn dangos symudiadau 'i mewn ac allan'.
Adnoddau - rhuban gosod blodau, stribedi o ffabrig, deunyddiau mawr i wau drwyddynt e.e. trellis, ffens, rheiliau.



Yn gwehyddu o amgylch ffrâm mewn cylchoedd.

Oedolyn - yn dangos symudiadau 'i mewn ac allan'.
Adnoddau - ffrâm wehyddu (lollysticks), edafedd, olwyn beic, rhuban, brigau.



Yn gwehyddu i mewn ac allan ar draws ar ffrâm lai.

Oedolyn - yn dangos symudiadau 'i mewn ac allan'. Yn cyflwyno geirfa - *gwŷdd* (ffrâm wehyddu), *gwennol* (o amgylch hwn mae'r edafedd).
Adnoddau - edafedd, rhubanau, stribedi o ffabrig, gwŷdd gardbord, gwennol gardbord, ffrâm ryg, netin.

